**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD a gynhaliwyd o bell drwy gynhadledd fideo ar ddydd Gwener, 31 Mai 2024**

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Elizabeth Evans (Cadeirydd), a'r Cynghorwyr Endaf Edwards, Eryl Evans, Gwyn James a Gareth Lloyd**

**Swyddogion yn bresennol: Elin Prysor a Nia Jones**

**(10.00am - 11.00am)**

Rhoddodd y Cynghorydd Elizabeth Evans, Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd amlinelliad o rôl a swyddogaeth Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd. Croesawodd y Cynghorydd Eryl Evans i'w chyfarfod cyntaf, a diolchodd i'r Cynghorydd Caryl Roberts am ei chyfraniad i'r Pwyllgor hwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd am eu hanallu i fynychu am ei bod yn cyflawni dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.

**2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Dim.

**3 I ystyried Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar unrhyw faterion sy'n codi**

PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2024.

Materion sy'n codi

Eitem 4: Dywedwyd bod y Cyngor wedi dechrau darlledu cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu ym mis Mai 2024.

Eitem 5: Nodwyd bod argymhelliad wedi'i anfon at Swyddogion y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn gofyn iddynt ystyried materion yn ymwneud â'r amser a ganiateir i Gynghorwyr sy'n cynrychioli wardiau Aml-Aelod i siarad, ac ychwanegwyd y byddai hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith yr oedd y grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ei wneud wrth adolygu'r gweithdrefnau gweithredol. Hefyd, nodwyd bod y Protocolau ar gyfer Cynghorwyr sy'n cynrychioli wardiau Aml-Aelod wedi'u dosbarthu i'r Aelodau perthnasol.

Eitem 8: Nodwyd bod y Canllaw i Gynghorwyr ynghylch Llesiant a Diogelwch Personol wedi'i ddosbarthu i'r holl Aelodau.

Eitem 9: Nodwyd bod y canllawiau i Gadeiryddion / Is-gadeiryddion ynghylch gohirio, atal neu derfynu cyfarfodydd wedi'u dosbarthu i'r holl Aelodau perthnasol.

**4 I ystyried adroddiad ar ychwanegiad i'r Cyfansoddiad - Rhan 4 Dogfen D - Rheolau Gweithrefn y Cabinet - Penderfyniadau Brys**

Cyflwynodd Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu yr adroddiad i'r Pwyllgor gan amlinellu'r cefndir a'r ystyriaethau a roddwyd i'r newidiadau arfaethedig yn y Cyfansoddiad. Roedd y newidiadau hyn wedi'u nodi yn Atodiad 1.

Dywedodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol nad oedd modd cynnal cyfarfodydd Cabinet mewn person am gyfnod byr pan ddechreuodd yr argyfwng Covid a bod Cofnodion o'r Hysbysiadau ynghylch Penderfyniadau Brys a lofnodwyd gan yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd ar y pryd hwnnw wedi cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Oherwydd datblygiadau ym maes technoleg a newidiadau deddfwriaethol ar yr adeg hon, roedd modd cynnal cyfarfodydd o bell a oedd yn caniatáu i'r Cyngor ailddechrau cynnal cyfarfodydd cyhoeddus.
Yn dilyn hynny, ystyriwyd bod angen adolygu Rheolau Gweithdrefn y Cabinet er mwyn cryfhau proses ddirprwyo'r Cabinet pan fo argyfwng, a oedd wedi'i nodi yn y Cyfansoddiad.

Cafodd gwelliant arfaethedig ei lunio a'i ystyried gan Weithgor y Cyfansoddiad, Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cabinet, Arweinwyr y Grwpiau a'r Grŵp Arweiniol.

Yn dilyn trafodaeth, dywedodd yr Aelodau fod y testun drafft yn nodi'n glir y gwahaniaeth rhwng y mandad gwleidyddol sydd ynghlwm wrth benderfyniadau a wneir gan y weithrediaeth, a'r agweddau gweithredol wrth ymateb ar frys i'r hyn sy'n dod o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad, ac argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r ychwanegiad i'r testun yn Atodiad 1.

**5 I ystyried adroddiad ar Gyhoeddiadau'r Cadeirydd - Pwyllgorau eraill**

Cyflwynodd Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad i'r Pwyllgor gan nodi bod y Cyngor ar 14 Rhagfyr 2023, drwy bleidlais y mwyafrif, wedi cymeradwyo'r cynnig gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i gyflwyno 'Cyhoeddiadau'r Cadeirydd' yn lle 'Materion Personol' ar agenda'r Cyngor.

Yn ystod cyfarfod o'r Cabinet wedi hynny, gofynnodd yr Aelodau a ddylai'r newid hwn gael ei ymestyn i gynnwys pob Pwyllgor. Nododd y Rheolwr Corfforaethol mai diben yr adroddiad hwn oedd hwyluso trafodaeth a chasglu barn Aelodau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

Nododd yr Aelodau fod anghysondeb ar hyn o bryd rhwng y pwyllgorau ac y dylid sicrhau bod pob un ohonynt yn gwneud yr un peth. Bu iddynt nodi mai'r Cyngor yw'r fforwm priodol ar gyfer pob cyhoeddiad, ac y dylid annog yr Aelodau i gyfleu eu negeseuon drwy Gadeirydd y Cyngor ac osgoi unrhyw ddyblygu a allai godi o gyhoeddi'r negeseuon hyn hefyd yng nghyfarfodydd y pwyllgorau eraill. Fodd bynnag, gwnaethant nodi nad oeddent yn dymuno atal yr Aelodau rhag cyflwyno eitemau brys i Gadeiryddion pwyllgorau eraill eu hystyried, er enghraifft, os byddai rhywun yn dymuno estyn eu cydymdeimlad ag eraill yn dilyn marwolaeth.

Dywedodd y Cynghorydd Elizabeth Evans fod gan Gadeiryddion pwyllgorau ddisgresiwn o ran y cyhoeddiadau, a chytunodd pob Aelod y dylai'r Cynghorwyr hysbysu'r Cadeiryddion cyn y cyfarfodydd am unrhyw faterion

brys y byddent yn dymuno eu cynnwys, fel sy'n digwydd cyn cyfarfodydd y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** argymell y canlynol i'r Cyngor:

- Bod y protocol ar gyfer Cyhoeddiadau'r Cadeirydd hefyd yn cael ei ddefnyddio gan y Cabinet a phob un o'r Pwyllgorau eraill, bod y Cadeiryddion perthnasol yn medru defnyddio eu disgresiwn eu hunain lle bo amgylchiadau eithriadol, a bod y Cadeiryddion yn cael eu hysbysu o'r holl gyhoeddiadau cyn y cyfarfod.

**6 I ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Cyflwynodd Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad i'r Pwyllgor, gan nodi, yn amodol ar sylwadau Aelodau'r pwyllgor, y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 18 Gorffennaf 2024.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddogion am baratoi Adroddiad Blynyddol a oedd yn ddeniadol ac yn hawdd ei ddarllen. Hefyd, diolchodd y Cynghorydd Elizabeth Evans i Aelodau'r Pwyllgor am eu holl waith caled yn ystod y flwyddyn a oedd wedi cyfrannu at yr hyn oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

**7 I ystyried eitemau ar y flaenraglen**

Bydd adroddiad ar ganllawiau i Aelodau sy'n cynrychioli Cyrff Allanol yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**8 Unrhyw fater arall y penderfyn'ar Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 5 Rhagfyr 2024**

**Cadeirydd:**_____

**Dyddiad:**_____